



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

**CYD-GREU YFORY HEDDIW:
Cyflwyno Vizgu a chreu arddangosfa**

Mensur Ibricic: Cyd-sylfaenydd, Arloesedd a Chyd-greu, [Vizgu](#)



Bydd Mensur yn trafod sut mae cwmnïau technoleg wedi esgeuluso haneswyr, archaeolegwyr, curaduron a gweithwyr proffesiynol wrth eu helpu i rannu'r wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu â'r cyhoedd ac addysgu pobl am yr holl ddarganfyddiadau mawr sy'n cael eu gwneud ac ymchwil gwych sydd ar y gweill. Bydd hefyd yn dangos sut mae Vizgu'n newid y ffordd y mae cwmnïau technoleg yn gweithio gyda'r staff proffesiynol hyn drwy feithrin athroniaeth newydd, sef cyd-greu datrysiadau a fydd yn y pen draw yn ateb diben uwch.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Mae cyd-greu yn ymwneud ag adeiladu rhywbeth gyda'ch gilydd – mae'n ymwneud â sefydlu dolen adborth gyson a gonest ar gyfer datblygu'r rhaglenni a phlatfformau mwyaf priodol a fydd yn helpu pob un ohonom i groesi'r bont o analog i ddigidol. Ymunwch â mi yn y sgwrs a gadewch i ni gyd-greu yfory heddiw.

Bydd Mensur hefyd yn rhoi arddangosiad realiti estynedig byw ac yn arddangos y dechnoleg a adeiladodd yn benodol ar gyfer Y Rhaglen Ddarganfod – i'w helpu i guraduro delweddau digidol yn deillio o ymchwil archaeolegol.

Yn ystod y sesiwn 40-munud gyntaf fe gyflwynir gwaith Vizgu: y Cychwyn, y pethau a wnaethom gyda phobl â nam ar eu golwg yng Nghymru a Denmarc. Byddwn yn siarad am ein taith a sut y bu i ni ddatblygu Vizgu drwy Gyd-Greu. Byddwn hefyd yn ystyried tueddiadau o ran beth mae'r ymwelydd modern yn ei ddisgwyl pan fydd yn ymweld â sefydliad fel amgueddfa neu adeilad treftadaeth fel castell, eglwys, tirnod, ac ati. Byddwn yn cyfuno hyn â'r dywediad "Mae'r Ffôn yn estyniad naturiol ohonom".

Yn yr ail sesiwn byddwn yn creu ac yn curaduro arddangosfa. Byddwn yn defnyddio technolegau newydd megis Realiti Estynedig, Adnabod Delweddau a Dysgu Peiriant i ddangos mor hawdd yw rhoi'r technolegau sythweledol hyn ar waith heb fawr ddim neu ddim hyfforddiant.

Bydd pob cyfranogwr yn cael trwydded Vizgu am ddim i'w defnyddio yn eu sefydliad. Os ydych chi'n awyddus i chwarae â'i feddalwedd ond yn methu gan fod amser yn brin, rhowch wybod i Mensur a bydd yn anfon trwydded brawf atoch.

Bywgraffiad

Cyd-sylfaenydd app a phlatfform o'r enw Vizgu yw Mensur. Drwy Vizgu mae'n ceisio helpu curaduron, haneswyr a gweithwyr proffesiynol i addysgu pobl am yr hyn sydd bwysicaf i bob un ohonom – ein treftadaeth ddiwylliannol mewn hanes, archaeoleg a chelf. Dyfodolwr hunanaddysgedig sy'n arbenigo mewn tueddiadau technolegol newydd yw Mensur. Ei nod yw newid y ffordd y mae cwmnïau technoleg yn gweithio gyda staff proffesiynol ym meysydd celf a threftadaeth ddiwylliannol – ac mae'n bwriadu meithrin y newid hwnnw drwy gyd-greu.

